



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Cofebion Rhyfel yng Nghymru

GOFALU AM



CYMRU'N COFIO
WALES REMEMBERS
1914 - 1918



War Memorials Trust

 **Cadw**

Cadw, Llywodraeth Cymru
Plas Carew
Uned 5/7 Cefn Coed
Parc Nantgarw
Caerdydd CF15 7QQ
01443 336000
cadw@wales.gsi.gov.uk
www.cadw.cymru.gov.uk

Cadw yw gwasanaeth amgylchedd hanesyddol Llywodraeth Cymru, yn gweithio i sicrhau amgylchedd hanesyddol hygyrch a ddiogelir yn dda i Gymru.

War Memorials Trust
2nd Floor
42a Buckingham Palace Road
Llundain
SW1W 0RE
Cyngor/grantiau cadwraeth: 020 7233 7356
conservation@warmemorials.org
www.warmemorials.org

Elusen genedlaethol yw'r Ymddiriedolaeth Cofebion Rhyfel sy'n gweithio i warchod a diogelu cofebion rhyfel yn y DU.

Cyhoeddwyd gyntaf gan Cadw yn 2014
ISBN 978 1 85760 319 4 (papur)
ISBN 978 1 85760 320 0 (PDF)
© Hawlfraint y Goron 2014
WG 19995

Darparwyd y ffotograffau ar gyfer y llyfryn hwn gan Gomisiwn Brenhinol Henebion Cymru (CBHC); mae pob delwedd yn © hawlfraint y Goron: CBHC oni nodir fel arall. Mae Cadw yn cydnabod â diolch help yr Athro Chris Williams a Phil Parkes (Prifysgol Caerdydd), Cyllene Griffiths (Cyngor Sir Powys), staff CBHC, Historic Scotland, English Heritage a'r Ymddiriedolaeth Cofebion Rhyfel yn y gwaith o barato'i'r llyfryn hwn.

Ac eithrio'r adran ar gofebion rhyfel yng Nghymru, mae'r cynnwys yn seiliedig ar *Advice on Maintenance of War Memorials* (English Heritage a'r Ymddiriedolaeth Cofebion Rhyfel) a *Short Guide 3: The Repair and Maintenance of War Memorials* (Historic Scotland a'r Ymddiriedolaeth Cofebion Rhyfel).

Mae'r holl ddogfennau hyn ar gael ar wefan yr Ymddiriedolaeth Cofebion Rhyfel
www.warmemorials.org/a-z

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael mewn fformatau amgen. Am fanylion, cysylltwch â Cadw yn y cyfeiriad uchod neu ffoniwch 01443 336000

Y ffotograff ar y clawr: Manyl yn o'r gofeb rhyfel yn Aberystwyth sy'n dangos Buddugoliaeth yn gafael mewn torch lawryf.

Y ffotograff ar y dudalen gynnwys: Mae cofebion rhyfel yn parhau yn ffocws cryf ar gyfer coffáu'r bywydau a gollwyd yn y Rhyfel Byd Cyntaf a gwrthdaro dilynol (Drwy garedigrwydd Media Wales Ltd).



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Gofalu am Gofebion Rhyfel yng Nghymru



Cynnwys

Cyflwyniad	3	Grantiau, Cyngor ac Adnoddau Defnyddiol	29
Cofebion Rhyfel yng Nghymru	5	Grantiau	29
Lleoliadau	5	Cyngor	29
Eiconograffi a delweddau	7	Adnoddau defnyddiol	29
Artistiaid a chrefft wyr	14		
Deunyddiau	17		
Cynllun Cynnal a Chadw Cadwraeth	19	Nodweddion	
Cofnodi	19	Ychwanegu enwau at gofebion rhyfel	19
Monitro	21	Symud cofebion	22
Cynnal a Chadw	22	Gwarchod rhag dwyn metelau	24
Atgyweirio	24	Cofebion rhyfel newydd	26
		Graffiti a fandaliaeth	27
Caniatadau Statudol	25		
Caniatâd adeilad rhestredig	25		
Caniatâd heneb gofrestredig	26		
Caniatâd cynllunio	26		
Eithriad eglwysig	27		



DROS FOR FE DROES I FARW

MCMXVIII

FEIBION


DEATH REMEMBER



Cyflwyniad

Mae rhyfel yn gadael ôl parhaus ar gof cenedl, yn wir, efallai mai'r Rhyfel Byd Cyntaf yw'r enghraifft orau o hynny lle collodd cynifer eu bywydau. Er bod achosion eraill o wrthdaro a'r rheini a fu farw ynddynt wedi cael eu coffáu o'r blaen, nid cyd-ddigwyddiad oedd y ffaith bod cynifer o gofebion cyhoeddus wedi cael eu codi ar ôl y Rhyfel Byd Cyntaf. Roedd yr arddangosiad cyhoeddus hwn yn ymateb pwerus i raddau'r colledion a fu — colledion a effeithiodd ar bron bob cymuned yng Nghymru. Lladdwyd 35,000 o Gymry a dim ond tri 'phentref diolchgar' yng Nghymru y gwyddys iddynt weld eu holl filwyr yn dychwelyd yn ddiogel. Ers hynny, mae cofebion rhyfel wedi bod yn ganolbwynt ingol mewn trefi a phentrefi ledled y wlad.

Roedd cyfraddau recriwtio yng Nghymru yn llawer uwch nag yn ystod achosion blaenorol o wrthdaro, er gwaethaf teimladau gwrthryfel — a oedd yn gysylltiedig ag Anghydfurfiaeth a'r mudiad llafur — a gynyddodd wrth i'r brwydro barhau. Bu Cymry yn brwydro ym mhob catrawd o'r fyddin Brydeinig, yn cynnwys y Gwarchodlu Cymreig, y Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig, Cyffinwyr De Cymru a Chatrawd Cymru. Yng Nghymru, bu'r alwad wladgarol yn arbennig o gryf pan gafodd y rhyfel ei bortredu fel ymgyrch o blaid cenedloedd bach. Ategwyd hyn ymhellach gan gefnogaeth Lloyd George i'r rhyfel: roedd yn Weinidog Arfau Rhyfel o fis Mai 1915, yn Ysgrifennydd Gwladol dros Ryfel o fis Gorffennaf 1916 ac yn Brif Weinidog o fis Rhagfyr 1916.



Uchaf: Recriwtiwyd milwyr o Gymru drwy apel i gefnogi annibyniaeth — 'Annibyniaeth sydd yn galw am ei dewraf dyn' (© yr Amgueddfa Rhyfel Ymerodrol).

Uchod: Poster recriwtio ar gyfer y Gwarchodlu Cymreig (© yr Amgueddfa Rhyfel Ymerodrol).

Chwith: Bu J. M. Staniforth yn gwneud cartwnau ar gyfer *The Western Mail* drwy gydol y Rhyfel Byd Cyntaf. Mae'r apel hon yn un am filwyr o Gymru gan Lloyd George yn amlygu ei gefnogaeth at y rhyfel (Drwy gareidgrwydd yn Athro Chris Williams).

Gyferbyn: Mae Cofeb Rhyfel Genedlaethol Cymru yng Nghaerdydd yn ganolbwynt i goffáu'r holl ddynion a merched o Gymru a gollodd eu bywydau tra'n gwasanaethu eu gwlad.



Equal to the Occasion.

CUSTOMER: (Mr. Lloyd George) Good day, ma'am! I am afraid I have come with rather a large order. I want an army corps of forty thousand Welshmen for the front.

DAME WALES: Certainly, sir. Indeed, look you, I shall have no trouble whatever in executing the order. When shall I send them, sir?


Mr. Lloyd George has taken the lead in the movement to raise, in the Principality, an Army Corps of 40,000 men for service at the front.

Wednesday, September 30th, 1914.

Gwaelod ar y dde: Daeth cofebion rhyfel yn fwy cyffredin ar ôl y Rhyfel Byd Cyntaf ond roedd brwydrau cynharach wedi'u coffáu hefyd. Mae'r gofeb hon yng Nghaerfyrddin yn coffáu Rhyfel De Affrica, 1899–1902.

Isod: Mae'r manylyn hwn o'r rhestr gwroniaid ar y gofeb rhyfel ar y Maes yng Nghaerfyrddin yn atgof ingol o'r llu o golledion y gallai teuluoedd eu cael.

Gwaelod ar y chwith: Addaswyd cofebion y Rhyfel Byd Cyntaf yn aml er mwyn coffáu brwydrau diweddarach. Ychwanegwyd y ddwy golofn bob ochr i'r brif gofeb ym Methesda i goffáu'r Ail Rhyfel Byd.



Er bod y rhan fwyaf o'n cofebion cyhoeddus i goffáu'r Rhyfel Byd Cyntaf wedi'u codi yn ystod y 1920au (weithiau'n llawer hwyrach), ceir enghreifftiau o wrthdaro cynharach, yn enwedig Rhyfel De Affrica (1899–1902). Mae llawer o gofebion y Rhyfel Byd Cyntaf hefyd wedi dod yn ffocws i goffáu'r sawl a fu farw yn yr Ail Ryfel Byd a gwrthdaro dilynol. Yn aml, ychwanegwyd enwau ac elfennau strwythurol newydd.

Telir am gofebion rhyfel drwy gyfraniadau lleol fel arfer, a chânt eu gosod mewn mannau cyhoeddus amlwg. Gallant fod ar sawl ffurf, yn amrywio o'r strwythurau coffa cyfarwydd i restrau gwroniaid, placiau a hyd yn oed adeiladau cyfan. Yn ogystal â chynnig cysylltiadau personol, maent hefyd yn parhau i chwarae rhan bwysig yn hunaniaeth ein cymunedau. Drwy ofalu amdanynt a'u cynnal a'u cadw, anrhydeddir eu perthnasedd parhaus. Er hyn, mae angen sicrhau cydbwysedd gofalus rhwng cynnal a chadw cofeb — fel y gellir gwerthfawrogi ei hoedran a'i hanes — ac unrhyw waith a allai achosi difrod neu gyflymu ei dirywiad.

Ystyriar bod rhai cofebion rhyfel o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig. Efallai eu bod yn enghreifftiau eithriadol o fath penodol o waith neu'n waith pensaer neu artist nodedig. O ganlyniad, gellir eu rhestru neu eu cofrestru

fel heneb, sy'n rhoi mwy o ddiogelwch cyfreithiol iddynt ac yn golygu ei bod yn ofynnol gofalu amdanynt yn gywir.

Mae'r llyfryn *Gofalu am hwn* yn egluro'r diddordeb arbennig a geir mewn cofebion rhyfel yng Nghymru ac mae'n awgrymu sut y gall ceidwaid, awdurdodau lleol, cyngorau cymuned a thref, a phobl leol lunio cynlluniau cynnal a chadw cadwraeth er mwyn sicrhau y gofelig am yr etifeddiaeth unigryw hon ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Ceir canllawiau technegol manylach ar waith cynnal a chadw ar wefan Cadw yn y cydgyhoeddiad *Gofalu am Gofebion Rhyfel yng Nghymru — Canllawiau Technegol*.



Cofebion Rhyfel yng Nghymru



Lleoliadau

Mae cofebion rhyfel yn fynegiant o golled, galar a balchder a rennir gan gymunedau cyfan. Maent yn ganolbwynt ar gyfer coffáu ac yn aml mae eu lleoliad yn adlewyrchu'r rôl gyhoeddus honno. Caiff llawer eu lleoli mewn mannau cyhoeddus amlwg — weithiau mewn lleoedd sydd wedi'u cynllunio neu eu haddasu'n arbennig ar eu cyfer.

Mewn llawer o achosion, mae'r cynllun ei hun yn cynnwys gofod ffisegol sy'n rhan bwysig o'r gofeb. Gall fod o fewn caeadle syml â rheiliau, neu ar ffurf cyfansoddiad mwy uchelgeisiol. Efallai

mai ym Mhorthmadog y mae un o'r rhai mwyaf anghyffredin, lle y cyrhaeddir y gofeb ar ben y bryn drwy ddilyn llwybr gorymdeithiol rhwng meini hirion sy'n cynrychioli bob blwyddyn o'r ddau ryfel byd.

Mae rhai cofebion yn fwy anghysbell, ond bod ganddynt bresenoldeb gweledol neu symbolaidd trawiadol; er enghraifft, y Gofeb Rhyfel Sirol ar gopa uwchlaw Trefaldwyn, y gofeb ar ben clogwyn yn Borth, neu'r gofeb ar Ynys Dysilio ar Afon Menai.

Dyluniwyd y lleoliad ar gyfer y gofeb rhyfel yn y Coed Duon i greu gofod urddasol a gwarchodol i anrhydeddu'r rhai a golodd eu bywydau yn y ddau ryfel byd.



Chwith: Mae llwybr gorymdeithiol yn esgyn at y gofeb rhyfel ym Mhorthmadog, sy'n creu ymdeimlad o ddisgwyliad a chyrraethiad yn y man cyhoeddus amlwg hwn.

Dde: Mae meini hirion wedi'u gosod bob ochr i'r llwybr, sy'n debyg i rodfa garreg gynhanesyddol, a blwyddyn o'r ddau ryfel byd wedi'i cherfio ar bob un ohonynt.

Amlygrwydd cyhoeddus oedd y bwriad i'r Gofeb Rhyfel Sirol uwchlaw Trefaldwyn, sy'n edrych allan dros ardal eang o'r wlad o amgylch a gellir ei gweld filltiroedd i ffwrdd.



Mae'r gofeb rhyfel ar Ynys Dysilio ar afon Menai hefyd yn amlwg, ond, gan ei bod wedi'i lleoli mewn mynwent, mae iddi bwysigrwydd crefyddol yn ogystal â sifil.



Chwith: Gellir rhoi lleoliad amlwg i gofebion y tu mewn i adeiladau hefyd. Mae'r Neuadd Atgofion yn y Neuadd Goffa yn y Barri yn cofnodi enwau'r 1,218 o drigolion y Barri a gollodd eu bywydau yn y ddau ryfel byd a brwydrau dilynol.



Dde: Mae Ysbyty'r Bwthyn Tywyn yn enghraifft dda o adeilad cyfan a adeiladwyd i goffáu'r Rhyfel Byd Cyntaf.



Weithiau, mae'r lleoliad a ddewiswyd yn awgrymu ymdeimlad o hanes, yn ogystal â chyflawni rôl gyhoeddus gyfoes. Saif y gofeb yn Aberystwyth yn falch uwchlaw'r môr o fewn muriau'r castell canoloesol (gweler t. 16) ac yng Nghas-gwent mae'r gofeb wedi'i lleoli ar safle'r farchnad ganoloesol a oedd yn ffocws traddodiadol i ddigwyddiadau cyhoeddus (gweler t. 28).

Mae eraill yn gysylltiedig ag adeiladau a sefydliadau cyhoeddus, fel neuadd tref, ac mewn rhai cymunedau mae'r gofeb rhyfel mewn mynwent eglwys neu gapel. Ceir cofebion llai ar ffurf placiau mewn eglwysi, capeli a neuaddau tref, neu yn y neuaddau a'r sefydliadau eraill a adeiladwyd yn arbennig fel cofebion rhyfel.



Chwith: Mae'r gatau addurniadol anarferol ym Mhont-y-pŵl yn goffâd i'r rhai a fu farw yn y Rhyfel Byd Cyntaf. Mae'n debyg i'r dylunydd gael ei ysbrydoli gan gatau o ddechrau'r ddeunawfed ganrif ym Mharc Pont-y-pŵl, ond roeddent hefyd yn dathlu sgiliau gwaith haearn lleol.

Isod ar y chwith: Mae Cofeb Arwyr Rhyfel Gogledd Cymru ym Mangor yn gofeb hynod sydd ar ffurf porthdy o gyfnod y Tuduriaid. Y tu fewn, mae'r llawr uchaf wedi'i leinio â phaneli pren sy'n rhestru'r 8,500 a fu farw yn y Rhyfel Byd Cyntaf.

Isod yn y canol: Caiff milwyr o Iwmoniaeth Morgannwg eu coffáu ar fryniau Saint Hilari, ger y Bont-faen.


Isod ar y dde: Yn 1999, bron 55 mlynedd ar ôl yr Ail Ryfel Byd, cododd y gymuned yn Aberdyfi y gofeb hon i gofio milwyr o uned gomando a hyfforddodd gerllaw.

Eiconograffi a delweddau


Fel casgliad, mae cofebion rhyfel yn enghraifft bwysig o gelf a cherflunwaith cyhoeddus. Fe'u hadeiladwyd mewn ystod eang o arddulliau yn amrywio o blaciau a chroesau syml i gerflunwaith ffigyraidd addumol. Gall y rhain fod yn dyrau cloc, yn byrth, neu hyd yn oed yn adeiladau a safleoedd cyfan, yn cynnwys meysydd chwarae a pharciau.

Mae gan ein cofebion lawer o gysylltiadau hanesyddol. Maent yn coffáu'r sawl a fu farw

o gymunedau unigol, o ranbarthau, siroedd a'r genedl ei hun. Roedd gan rai catrodau eu cofebion eu hunain, fel y Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig yn Wrecsam ac Iwmoniaeth Morgannwg ym mryniau Saint Hilari, y Bont-faen. Mae cofebion eraill yn coffáu cymunedau penodol fel ysgolion, masnachau neu broffesiynau. Yng Nghapel Baladeulyn, Nantlle, ceir cofeb i chwarelwyr ac yn Llangefni ceir cofeb yn yr hen Ysgol Sirol sy'n coffáu cyn ddisgyblion.







Uchaf ar y chwith: Caiff chwarelwyr lleol, a gollodd eu bywydau yn y Rhyfel Byd Cyntaf, eu coffáu ar y gofeb lechen gerfiedig goeth hon yng Nghapel Baladeulyn, Nantlle. Mae'r delweddau graffig yn cofnodi golygfeydd o ryfel a gwaith.

Uchaf ar y dde: Mae cymunedau ysgolion hefyd yn coffáu'r sawl a fu farw. Caiff enwau cynddisyblion a laddwyd yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf eu cofnodi ar y gofeb hon y tu allan i'r hen Ysgol Sirol yn Llangefni.

Isod ar y chwith: Cafwyd agweddau amrywiol at y modd y portreadwyd rhyfel. Yma, yng Nglynebwy, mae milwr yn chwifio ei helmed yn fuddugoliaethus.

Isod ar y dde: Mewn gwrthwynebiad, mae'r milwr blinedig hwn yn y Fenni yn awgrymu agwedd wahanol iawn at ryfel.



Mae cofebion yn adlewyrchu agweddau gwahanol at ryfel a ddangosir, er enghraifft, yn y modd y cafodd milwyr eu portreadu'n flinedig neu'n fuddugoliaethus. Un ystum cyffredin yw milwr gyda reiffel a bigod yn pwyntio am i lawr, sy'n arwydd o amser gweddi a myfyrio. Mae rhai yn cynnig portreadau manwl o ffigyrau milwrol a lifrau catrodol. Mae'r gofeb i'r Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig yn Wrecsam yn portreadu milwr o'r ddeunawfed ganrif y tu ôl i'w gyd-filwr o'r ugeinfed ganrif ac mae'r gofeb yn Llanfair-ym-Muallt yn cynnwys ffigyrau

sy'n cynrychioli'r fyddin, y llynges, y llu awyr a'r llynges fasnach. Mae'r gofeb yn Aberdaugleddau hefyd yn cynnwys ffigyrau o filwyr a cheir cerfweddau cain o filwr a morwr ar y senotaff yng Nghaerdybi.

Ceir galwadau gwladgarol Cymreig yn aml, boed hynny'n anuniongyrchol drwy'r defnydd o'r groes Geltaidd, neu'n fwy bwriadol gyda'r defnydd o'r ddraig Gymreig. Yn aml, cyfeirir at draddodiadau cynharach, fel y gofeb gain yn Hanmer ar ffurf croes ganoloesol. Ysbrydolwyd y gofeb ym Meisgyn hefyd gan



Gyferbyn: Mae gan rai catrodau hefyd eu cofebion eu hunain. Mae'r ffigyrau hyn ar gofeb y Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig, Wrecsam, yn portreadu milwr o'r ddeunawfed ganrif a'r ugeinfed ganrif, sy'n pwysleisio parhad y gatrawd sy'n fwy na 300 mlwydd oed.

Chwith: Ffigwr o beilot prudd a geir ar ben y gofeb rhyfel yn Aberdaugleddau.



Dde: Collodd pob un o'r lluoedd arfog unioglion yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf. Mae'r gerfwedd goeth hon ar y gofeb ym mhorthladd prysur Caergybi yn dangos morwr.

Chwith: Mae'r groes Geltaidd yn ffurf cyfarwydd ar gofebion rhyfel ac mae'n alwad ar ein treftadaeth Gymreig a Christnogol. Mae'r enghraifft hon wedi'i lleoli yn y fynwent yn Eglwys Santes Elli, Llanelli.



Dde: Mae dreigiau yn apelio'n fwy amlwg i wladgarwch Cymreig. Mae'r bwystfil milain yr olwg hwn yn ymddangos ar ben y gofeb rhyfel yn Hwlfordd.

Ceir neges wladgarol amlwg iawn yn yr olygfa hon ar y gofeb rhyfel yn Rhaeadr Gwy lle dangosir draig Gymreig yn gorchfygu eryr Amlaenig.



gerflunwaith canoloesol, ond milwyr yw'r ffigyrau arni. Yn Llanilltud Fawr, codwyd y gofeb ar fôn adferedig croes ganoloesol yng nghanol y pentref. Ceir cyfeiriadau gwladgarol uniongyrchol ar dŵr y cloc yn Rhaeadr lle dangosir draig Gymreig yn gorchfygu eryr Almaenig.

Mae rhai cofebion yn ymgorffori cyfeiriadau sy'n arbennig o leol a phersonol fel yn Aberdaugleddau lle ceir cofeb Rhyfel Byd

Cyntaf a godwyd gan berchenogion treill-long stêm a phobl Ostend a oedd yn byw yn y dref yn ystod y rhyfel. Dywedir bod y milwr ar y gofeb i Rhyfel De Affrica yn Abertawe yn seiliedig ar Uwch-Ringyll O. S. Bird, sef y meistr addysg gorfforol yn yr ysgol ramadeg. Mae'r gofeb ym Magwyr yn cynnwys medaliwn efydd sy'n portreadu D. A. Thomas, Is-larlly cyntaf y Rhondda a'r Gweinidog Rheoli Bwyd o 1917 hyd at ei farwolaeth yn 1918.


Uchaf ac isod ar y chwith: Defnyddiodd cofebion rhyfel ffurfiau traddodiadol eraill yn seiliedig ar bensaerniaeth ganoloesol. Mae'r gofeb ym Meisgyn wedi'i dylunio ar arddull croes ganoloesol, ond caiff ffigyrau o filwyr eu cynnwys yn lle delweddu crefyddol.

Dde: Yn aml, roedd cofebion rhyfel yn cynnwys cyfeiriadau lleol iawn. Dywedir bod y milwr sy'n sefyll ar y gofeb yn Abertawe i Rhyfel De Affrica (1899–1902) yn seiliedig ar Uwch-Ringyll O.S. Bird, a oedd yn athro yn Ysgol Ramadeg Abertawe.



Chwith: Mae Ffawd wedi'i bersonoli fel merch yn ddelwedd gyffredin ar gofebion rhyfel. Yma, ym Mhontmorlais, Merthyr Tudful, saif ffigyrau glöwr a mam yn cario ei phlentyn bob ochr i Ffawd. Mae'r ffaith eu bod yn edrych tuag i lawr ar yr arysgrif sy'n coffáu'r rhai a fu farw yn y Rhyfel Byd Cyntaf yn creu ymdeimlad o ymostyngiad.


Dde: Ffigwr manwl mam a phlentyn diymgeledd ar y gofeb ym Mhontmorlais.



Chwith: Hefyd, yn aml, caiff Buddugoliaeth ei phersonoli fel merch gref. Saif y ffigwr adeiniog hwn o Fuddugoliaeth ar ben blaen llong yn edrych allan dros y môr ym Mhenarth.


Canol: Yn Llandaf, caiff y lle ei hun ei bersonoli fel y ferch awdurdodol hon mewn gwsg Geltaidd.

Dde: Mae'r ffigwr trawiadol hwn yn un o ferch yn chwifio arf dros y gelyn gorchfygedig ar ben y gofeb rhyfel yn Aberpennar. Cerfiwyd y ffigyrau gan J. Harvard Thomas a oedd yn gyfrifol am y cerflun o Boudicca (Boadicea) yn Neuadd y Ddinas, Caerdydd.





Mae cofebion hefyd yn cynnwys iaith gyfoethog o symbolaeth a oedd efallai'n fwy cyfarwydd i bobl pan gawsant eu codi gyntaf. Er enghraifft, mae'r gofeb ym Mhontmorlais, Merthyr Tudful, yn portreadu Ffawd ac ym Mhenarth mae Buddugoliaeth adeiniog yn sefyll ar ben blaen llong yn edrych allan dros y môr ym Mharc Alexandra. Mae'r gofeb hynod yn Aberystwyth hefyd yn portreadu Buddugoliaeth a Dynoliaeth yn ymddangos yn fuddugoliaethus o anhrefn rhyfel (gweler t. 16). Mae'r gofeb yn Llandaf yn cynnwys ffigur benywaidd Celtaidd sy'n personoli Llandaf ei hun. Caiff Heddwch ei bersonoli yn y gofeb ym Mhonrhydfendigaid ac mae'r gofeb yn Aberpennar yn portreadu ffigur benywaidd gyda'r gelyn gorchfygedig wrth ei thraed. Mae'r gofeb ym Mharc Talbot, Port Talbot, yn cynnwys ffigur Buddugoliaeth



Chwith: Daeth y Senotaff yn Whitehall, Llundain, a ddyluniwyd gan Edwin Lutyens, yn fodel i'r cofebion rhyfel niferus ledled Cymru, fel y gwelir yn yr enghraifft wych hon yn Victoria, Casnewydd. Mae'r dyluniad yn cyfeirio at y traddodiad clasurol ac mae'n osgoi unrhyw gyfeiriadau crefyddol penodol.

Dde: Mae'r obelisk yn ddyluniad arall a ysbrydolwyd gan arddull glasurol. Codwyd yr enghraifft hon yn y Fflint i goffáu Rhyfel De Affrica (1899–1902).

a phaneli o gerfweddau sy'n cynrychioli Rhyfel, Heddwch a Chhoffadwriaeth.

Roedd llawer o gofebion, beth bynnag fo'u lleoliad a beth bynnag fo'u cyfeiriadau arddulliol, yn defnyddio eiconograffi Cristnogol. Ceisiodd eraill osgoi cyfeiriadau penodol at grefydd, gan gyfeirio yn hytrach at y traddodiad clasurol a ysbrydolodd y Senotaff yn Whitehall, Llundain, cafodd rhai cofebion yng Nghymru eu seilio'n eithaf agos arno, yn cynnwys Victoria, Casnewydd. Ceir enghreifftiau da o gofebion eraill a ysbrydolwyd gan arddull glasurol yng Nghaemarfon (y Maes) — lle caiff clasuriaeth ei chyfuno â draig — ac yng Nghaergybi (gweler t.18). Defnyddiwyd yr obelisk yn fynych hefyd a cheir enghraifft dda yn y Fflint yn ogystal â llawer o rai llai mewn mannau eraill. Mae'r Gofeb Rhyfel Sirol yn Nhrefaldwyn ar ffurf colofn Dorig anferth (gweler t. 6).



Uchod: Comisiynwyd cerflunwyr, penseiri ac artistiaid ag enw cenedlaethol yn aml i ddylunio cofebion rhyfel. Dyluniwyd y gofeb rhyfel yn y Trallwng gan Aston Webb, y pensaer enwog o Lundain, a ddefnyddiodd ddelweddau o seintiau lleol sy'n debyg i groes ganoloesol mewn mynwent.

Dde: Y cerflunydd nodedig Eric Gill a ddyluniodd y gofeb syml ac urddasol hon yn y Waun. Mae'r milwr yn ei grwm yn gafael yn ei reiffel a bigod yn creu ymdeimlad o ddwystr ac urddas.



Artistiaid a chreffftwyr

Roedd llawer o bobl yn rhan o'r gwaith o greu cofebion rhyfel. Yn aml, roedd angen sawl crefft yn cynnwys gwaith maen, gwaith ysgythru, gwaith metel a bwrw. Er y defnyddiwyd dylunwyr a gwneuthurwyr lleol yn aml, comisiynwyd penseiri ac artistiaid ag enw cenedlaethol hefyd.

Y cerflunydd a'r dylunydd Eric Gill a

ddyluniodd y gofeb yn y Waun; pensaer Cadeirlan Lerpwl, Giles Gilbert Scott, a ddyluniodd y cofebion ym Mhenarlâg a Hanmer, a phensaer Senotaff Whitehall, Edwin Lutyens, a ddyluniodd gofeb y Gatrawd Gymreig ym Marics Maendy yng Nghaerdydd. Y pensaer lleol, Coates Carter, a leolir yng Nghaerdydd, a ddyluniodd y gofeb ym Mhenarth, a gwaith Aston Webb,

pensaer enwog o Lundain, oedd y gofeb yn y Trallwng. William Goscombe John — un o gerflunwyr gorau Cymru — a wnaeth rai o'r ffigyrau ysblennydd niferus a ddefnyddiwyd ar nifer o gofebion ledled Cymru. Yn fwy anarferol, dyluniwyd cofeb tref Aberystwyth gan Mario

Rutelli o Rufain (gweler t. 16), ond defnyddiwyd llawer mwy o grefftwyr mwy lleol. Er bod llawer o wybodaeth yn bodoli am rai cofebion rhyfel, nid yw hynny'n wir am rai eraill, ac mae rhai adeiladwyr a chrefftwyr nad yw eu henwau wedi'u cofnodi.

Chwith: Dyluniwyd y gofeb rhyfel ym Marics Maendy gan Edwin Lutyens yn arddull ei Senotaff yn Whitehall, Llundain, ac fe'i codwyd i goffâu milwyr bataliynau cyntaf ac ail y Gatrawd Gymreig a gollwyd yn y Rhyfel Byd Cyntaf. Ychwanegwyd cofebion i frwydrau eraill ers hynny.

Isod: Roedd William Goscombe John yn gerflunydd nodedig a anwyd yng Nghaerdydd a astudiodd yng Nghastell Caerdydd o dan William Burges. Mae ei ffigyrau trawiadol a realistig yn ingol ac urddasol. Maent yn ymddangos ar sawl cofeb rhyfel yng Nghymru, yn cynnwys yn Llanelli (chwith) a Llanbedr Pont Steffan (dde).





Deunyddiau

Gwnaed y rhan fwyaf o'r cofebion rhyfel yng Nghymru o garreg. Yn aml, defnyddiwyd mwy nag un math o garreg mewn cofebion cyfansawdd, er enghraifft lle codwyd croes ar risiau. Yn aml, mewnoforiwyd y cerrig cain yr oedd eu hangen ar gyfer gorffeniad o safon — er enghraifft gwenithfaen o Gemyw neu'r Alban, calchfaen Portland o Dorset a chalcfaen Doullting o Wlad yr Haf. Gall fod cerrig eraill wedi dod o fannau agosach yng Nghymru — tywodfaen coch o'r gororau, carreg Pennant o'r de-ddwyrain a llechi o'r gogledd, er enghraifft.

Gall yr amrywiaeth yn y math o gerrig a'u tarddiad hefyd gael ei ategu gan amrywiaeth yn y gorffeniad. Yn aml, roedd prif elfennau cerflunol cofeb wedi'u gorffen neu eu caboli'n ysbennydd, ond efallai bod rhannau eraill wedi'u naddu neu eu llyfnu i roi golwg garw.

Roedd llawer o gofebion hefyd yn cynnwys elfennau metel, yn arbennig efydd, copr a haearn bwrw. Yn aml, roedd yr arysgrifau wedi'u hysgathru'n uniongyrchol ar y garreg. Fodd bynnag, weithiau roeddent wedi'u heuro neu eu britho â phlwm. Fel arall, byddai paneli wedi'u rhychu, eu bwrw neu eu boglynnu yn cael eu gosod ar y garreg. Yn aml, byddai paneli ar wahân yn cael eu hychwanegu i'r gofeb wreiddiol er mwyn coffáu gwrthdaro diweddarach a gallai hyn olygu bod deunydd arall eto'n cael ei gyflwyno.

Ceir enghreifftiau o ddeunyddiau eraill yn cael eu defnyddio ledled Cymru. Mae cyfuniad o garreg a choncrid wedi'i gofnodi, ac, ym Mroncysyllte, gwnaed y gofeb i Ryfel De Affrica o deils faience. Weithiau, defnyddiwyd pren, gwydr lliw a phres ar gyfer cofebion y tu mewn i adeiladau ynghyd â rhestrau gwroniaid o bapur a hyd yn oed dapestriau.

Mae o leiaf 3,000 o gofebion rhyfel yng Nghymru y gwyddir amdanynt. Maent yn gofnod ffisegol o'r sawl a fu farw dros eu gwlad ac yn deyrnged huawdl i effaith rhyfel. Maent hefyd yn gasgliad gwyb o gelf a cherflunwaith cyhoeddus sy'n rhoi cipolwg ar agweddau cyfoes at wrthdaro ac ar ein cyndeidiau a helpodd i lunio ein gorffennol. Mae cofebion rhyfel yn parhau i chwarae rôl bwysig yn hunaniaeth ein trefi a'n pentrefi. Mae'n hanfodol ein bod yn deall sut i ofalu amdanynt er mwyn sicrhau eu bod yn goroesi yn yr hirdymor.



Chwith: Er bod y rhan fwyaf o gofebion rhyfel yng Nghymru wedi'u gwneud o garreg, yn aml, maent yn cynnwys mathau a gorffeniadau gwahanol. Er enghraifft, gwnaed y gofeb ym Machynlleth o wenithfaen gyda cholofnau marmor pinc Aberdeen â llechen wedi'i chaboli arnynt.

Isod: Yn Nhredegar Newydd, saif ffigyrau marmor gwyn ar ben plinth o wenithfaen coch. Mae rhan o'r plinth wedi'i chaboli ac mae rhan wedi'i naddu i greu gweadau gwahanol.



Gyferbyn: Dyluniwyd cofeb rhyfel y dref ar lan y môr yn Aberystwyth gan y cerflunydd nodedig o'r Eidal, Mario Rutelli.

CWRONIAID Y
RHYFEL MAWR
1914 — 1918



Two vertical panels of names, likely soldiers who died during the First World War, inscribed on the right side of the monument.

Codi Pwysau
a Chwaraeon
Weightlifting
and Sports

IN MEMORY OF WELSH GUARDSMEN
KILLED IN ACTION IRELAND IRELANDS 1962
CORP DR. WILLIAMS
1ST BATTALION WELSH GUARDS

1939 — 1945

LEVEL, H.H. PENSTONE, J.A. ROBERTS, T.H. KRITTALL, A.E.
MOORE, W. PRITCHARD, C.E. ROBERTS, T. WILLIAMS, E.
MIDDLETON, E.J. PRITCHARD, M. ROBERTS, H.H. WILLIAMS, E.G.
NEWTON, G.W. PRITCHARD, M.H. ROBERTS, W.J.D. WILLIAMS, G.
MOBLE, W. PROFFER, E. ROWLANDS, O. WILLIAMS, J.
OWEN, C. PROFFER, E. ROWLANDS, R.L. WILLIAMS, J.
OWEN, G. REED, E.E. ROWLEY, D. WILLIAMS, J.H.
OWEN, G.D.M. REYNOLDS, D.R.M. SHARPLES, C. WILLIAMS, D.
OWEN, M.H. REYNOLDS, T.G.M. SULLIVAN, J.J. WILLIAMS, C.H.
OWEN, R. ROBERTS, C. TAYLOR, T.J. WILLIAMS, R.J.
OWEN, T. ROBERTS, H. THOMAS, G. WILLIAMS, R.A.
OWEN, M.E. ROBERTS, R. THOMAS, P.H. WILLIAMS, R.A.
OWEN, M.H. ROBERTS, G.J. THOMAS, R. WILLIAMS, R.M.
OWEN, M.H. ROBERTS, G.J. THOMAS, R.H. WILLIAMS, T.
OWEN, M.H. ROBERTS, R.D. WAINING, R.R. WILLIAMS, T.
OWEN, M.H. ROBERTS, R.J. WAINING, R.R. WILLIAMS, T.W.E.
OWEN, M.H. ROBERTS, R.J. WAINING, R.R. WILLIAMS, T.W.E.

CYFODDYD Y GOLOFN HON GAN
DRIGOLION CAERGYBI ER GOF AM
Y RHAI A FU FARW DROS RYDDID
CYFIAWNDER A CWAREIDDIAID
EU A BERY O GENEHDLAETH
GENHEDLAETH



Cynllun Cynnal a Chadw Cadwraeth

Os ydych yn geidwad cofeb rhyfel, mae'n syniad da llunio cynllun cynnal a chadw cadwraeth er mwyn eich helpu i ofalu am eich cofeb rhyfel yn effeithiol. Os oes gennych gofeb rhyfel yn eich cymuned rydych am ofalu amdani, yna mae angen i chi ddod o hyd i'r perchennog a chael ei ganiatâd cyn i chi ddechrau ar unrhyw waith cynnal a chadw. Ceir rhagor o wybodaeth am berchenogaeth ar wefan yr Ymddiriedolaeth Cofebion Rhyfel.

Dylech ganfod a yw'r gofeb wedi'i rhestru neu ei chofrestru fel heneb rhag ofn y bydd angen i chi gael caniatâd ar gyfer eich gwaith (gweler t. 25 am ragor o wybodaeth).

Mae hefyd yn werth gweld a oes yswiriant yn diogelu'r gofeb rhyfel a gwneud trefniadau addas os nad oes. Mae gan yr Ymddiriedolaeth Cofebion Rhyfel ganllawiau am yswiriant ar gyfer cofebion rhyfel ar ei gwefan.

Gall eich cynllun fod yn rhestr wirio syml sy'n eich atgoffa i archwilio eich cofeb yn rheolaidd a gwneud gwaith cynnal a chadw sylfaenol. Bydd hefyd yn eich helpu i nodi unrhyw waith atgyweirio sydd ei angen ar gam cynnar. Ceir canllawiau manylach ar yr hyn y gallwch ei wneud eich hun a phryd y dylech droi at arbenigwr cadwraeth ar wefan Cadw yn *Gofalu am Gofebion Rhyfel yng Nghymru — Canllawiau Technegol*.

Dylai eich cynllun gynnwys y canlynol:

- Cofnod ysgrifenedig a ffotograffig o'r gofeb rhyfel.
- Rhaglen fonitro a chynnal a chadw flynyddol, yn cynnwys manylion unrhyw waith.
- Cofnod o unrhyw waith atgyweirio.

Cofnodi

Mae'r cofnod o enwau ar gofeb rhyfel yn ffynhonnell bwysig o wybodaeth.

Gyda threigl amser, gall enwau gael eu cuddio, eu difwyno neu fynd yn annarllenadwy oherwydd traul — ac wrth i berthnasau farw — mae perygl y gellid colli'r cofnod am byth. Mae cadw cofnod ysgrifenedig a ffotograffig o'r arysgrifau ar gofebion rhyfel yn rhan hanfodol o'r gwaith o ofalu am y gofeb, ond mae gwneud gwaith cynnal a chadw ar yr arysgrifau yn bwysig hefyd.

Fel blaenoriaeth, dylai ceidwad cofeb rhyfel sefydlu ei phwysigrwydd hanesyddol neu bensaemiol, yn enwedig os yw wedi'i rhestru. Gall ymchwilio i hanes y gofeb ddatgelu gwybodaeth bwysig fel pwy dalodd amdani, ei deunyddiau a'i dylunydd, a sut y dewiswyd yr enwau sy'n ymddangos ar y gofeb. Gall pob un o'r rhain helpu i lywio eich cynllun cynnal a chadw cadwraeth. Mae gan yr Ymddiriedolaeth Cofebion Rhyfel ganllawiau ar ei gwefan ar ymchwilio i hanes cofeb rhyfel.

Gyferbyn: Bydd cynllun cynnal a chadw cadwraeth ar gyfer eich cofeb rhyfel yn helpu i sicrhau ei bod yn goroesi yn yr hirdymor. Yn dilyn difrod damweiniol, atgyweirwyd ac adnewyddwyd Senotaff Caergybi yn ddiweddar. Ar ôl i wirfoddolwyr o'r gymuned leol ymchwilio i'w hanes, bu i benseiri cadwraeth achrededig a gweithwyr cadwraeth arbenigol adfer y gofeb. Mae Cyngor Tref Caergybi wedi yswirio'r gofeb ac wedi'i gosod ar eu cofrestr asedau. Golyga hyn, ynghyd â mabwysiadu cynllun cynnal a chadw cadwraeth, y gofelir am y senotaff yn gywir yn yr hirdymor.

Ychwanegu enwau at gofebion rhyfel


Weithiau efallai y bydd angen i chi ychwanegu rhagor o enwau neu arysgrifau at gofebion rhyfel presennol. Os yw'r gofeb wedi'i rhestru neu ei chofrestru efallai y bydd angen i chi gael caniatâd adeilad rhestredig neu ganiatâd heneb gofrestredig ar gyfer y gwaith hwn. Fodd bynnag, cyn belled ag y gwnaed ymchwil i unrhyw ychwanegiadau neu ddiwygiadau, bod digon o le a bod yr un arddull a dull o lythrennau'n cael

eu defnyddio, yna nid yw'n debygol y bydd unrhyw wrthwynebiad. Mae taflen gymorth yr Ymddiriedolaeth Cofebion Rhyfel ar *ychwanegu enwau at gofebion rhyfel* yn rhoi rhagor o gyngor a gwybodaeth.

Os ydych yn bwriadu ychwanegu enwau neu arysgrifau, mae'n syniad da ymgynghori â'r gymuned ynghylch eich cynlluniau er mwyn sicrhau bod pawb yn cytuno. Mae hefyd yn gyfle i nodi unrhyw enwau eraill y mae angen eu

hychwanegu neu eu haddasu er mwyn sicrhau y gellir gwneud y gwaith ar yr un pryd. Bydd angen i chi gael caniatâd y perchennog neu'r ceidwad.

Fel arfer, ni fydd yr Ymddiriedolaeth Cofebion Rhyfel yn cefnogi ceisiadau i ychwanegu placiau neu arysgrifau eraill, fel rhai i goffâu gwaith adfer neu ddyddiadau coffa. Gall ychwanegiadau o'r fath dynnu oddi wrth bwrpas gwreiddiol y gofeb rhyfel a rhoi golwg anniben arni.



Chwith: Mae cofnod ffotograffig da yn bwysig. Mae'r olygfa hon yn dangos cofeb Penarlâg yn ei chyd-destun, yn cynnwys y paneli sydd wedi cael eu hychwanegu i goffâu'r Ail Ryfel Byd.

Dde: Mae'r olygfa agos hon o ben y groes yn cofnodi cyflwr y gwaith maen a'r delweddau crefyddol.

Bydd creu cofnod ysgrifenedig a ffotograffig cywir o'r holl nodweddion yn cynnwys cyflwr, lleoliad, manylion adeiladu, nodweddion addurniadol ac arysgrifau yn helpu wrth wneud penderfyniadau cadwraeth neu adfer. Mae'n ddefnyddiol cadw hen ffotograffau, toriadau o bapurau newydd gwreiddiol a dogfennau sy'n ymwneud â hen waith cynnal a chadw ac adfer. Mae'r cofnod hwn o'r gofeb a'i nodweddion yn hanfodol mewn achosion o ddifrod neu ddwyn.

Unwaith y byddwch wedi llunio cofnod ar gyfer eich cynllun cynnal a chadw cadwraeth, dylech wneud y canlynol:

- Rhoi copi i Gofnod Henebion Cenedlaethol Cymru, a ddelir gan Gomisiwn Brenhinol Henebion Cymru (CBHC).

- Anfon copi i'r Cofnod Amgylchedd Hanesyddol. Fe'u cynhelir gan yr ymddiriedolaethau archeolegol rhanbarthol.
- Anfon copi at Swyddog Cofebion Rhyfel eich awdurdod lleol. Ceir manylion ar wefan yr Ymddiriedolaeth Cofebion Rhyfel.
- Dylid hefyd sicrhau bod cofnod o'r gofeb a'i chyflwr ar wefan Cofebion Rhyfel Ar-lein

Efallai y bydd rhagor o wybodaeth ar gael yn y Cofnod Amgylchedd Hanesyddol neu'r gofrestr o gofebion rhyfel a gaiff ei churadu gan Archif Cofebion Rhyfel yr Amgueddfeydd Rhyfel Ymerodrol.

(Gweler Grantiau, Cyngor ac Adnoddau Defnyddiol ar t. 29 am fanylion cyswllt a chyfeiriadau gwefannau).

Monitro

Dylid archwilio'r gofeb rhyfel yn rheolaidd, o leiaf unwaith y flwyddyn. Gallwch ddefnyddio *arolwg cyflwr* yr Ymddiriedolaeth Cofebion Rhyfel er mwyn eich helpu i asesu cyflwr eich cofeb rhyfel. Neu, efallai yr hoffech gyflogi contractwr addas i asesu'r cyflwr a rhoi cyngor ar raglen waith benodol.

Dyma'r mathau o faterion y mae angen i chi eu hystyried:

Cyflwr y strwythur

- A oes unrhyw ddifrod ffisegol neu strwythurol?
- A yw'r deunydd wedi'i dreulio'n wael oherwydd y tywydd?
- A oes unrhyw nodweddion ar goll?
- A oes angen glanhau'r gofeb?
- A oes angen ail-bwyntio'r uniadau?

Arysrifau ac enwau

- A ydynt yn ddarllenadwy?
- A oes unrhyw lythrennau ar goll?
- A yw'r llythrennau wedi treulio'n wael oherwydd y tywydd?
- A oes enwau/placiau ar goll neu wedi'u difrodi?

Mynediad

- A yw'r gofeb yn hygyrch i'r cyhoedd?

- A ddarperir mynediad i bobl anabl?
- A oes angen glanhau'r palmant?
- A oes angen atgyweirio'r palmant?
- A oes angen chwynnu'r palmant neu'r ardal o amgylch?

Yr ardal o amgylch


- A yw'r safle'n cael ei chynnal a'i chadw'n dda yn gyffredinol?
- A oes unrhyw strwythurau neu goed sy'n beryglus neu wedi'u difrodi yn y cyffiniau?

Diogelwch

- A yw'r gofeb rhyfel wedi'i fandaleiddio?
- A oes unrhyw nodweddion wedi'u difrodi neu eu dwyn?
- A oes angen cynnal a chadw neu atgyweirio clwydi, ffensiau a waliau terfyn?
- A yw'r safle'n ddiogel?

Os byddwch yn dod ar draws unrhyw broblemau, dylech drefnu i warchodwr neu gontractwr addas wneud unrhyw waith atgyweirio angenrheidiol cyn i gyflwr y gofeb rhyfel ddirywio ymhellach. Bydd hyn yn gost-effeithiol yn yr hirdymor oherwydd gall leihau'r angen am waith adferol costus yn y dyfodol.

Yn ogystal â monitro cyflwr y gofeb rhyfel ei hun, dylech hefyd fonitro ei lleoliad, diogelwch a hygyrchedd yn rheolaidd. Mae'r gofeb yng Nghilfynydd, sy'n coffáu corfflu'r fyddin, y llynges a'r awyrlu yn fan agored cyhoeddus sy'n hygyrch ac yn cynnwys mainc i orffwys a myfyrio.





Yn aml, gwneir cofebion rhyfel o nifer o ddeunyddiau gwahanol ac maent yn cynnwys waliau terfyn neu reiliau a manau cyhoeddus y mae'n rhaid eu cynnal a'u cadw'n briodol. Mae'n arfer da cadw cofnod o unrhyw waith cynnal a chadw fel rhan o'ch cynllun gwaith cynnal a chadw cadwraeth.

Cynnal a Chadw

Dylid sicrhau bod unrhyw waith cynnal a chadw'n cael ei wneud gan unigolyn sydd wedi'i hyfforddi a gaiff ei fonitro'n briodol. Yn dibynnu ar y deunyddiau y gwnaed y gofeb ohonynt, efallai y bydd angen i chi gysylltu â gweithiwr cadwraeth proffesiynol i wneud y gwaith i chi. Dylid cadw cofnod llawn o unrhyw waith cynnal a chadw fel rhan o'ch cynllun cynnal a chadw cadwraeth.

Caiff y rhan fwyaf o gofebion rhyfel eu gwneud o garreg gydag efydd, pres, haearn a phren yn ychwanegion cyffredin. Gall arysgrifau fod wedi'u rhychu, wedi'u cerfweddu neu eu hatodi ar yr wyneb a gallant fod wedi'u

heuro, eu paentio neu eu llenwi â phlwm. Mae presenoldeb yr holl ddeunyddiau hyn yn dangos cymhlethdod cofebion rhyfel a rhaid i waith cynnal a chadw ystyried hyn.

Mae'r rhestr ganlynol yn rhoi rhywfaint o gyngor cyffredinol ar driniaethau cynnal a chadw. I gael canllawiau manylach, darllenwch *Gofalu am Gofebion Rhyfel yng Nghymru — Canllawiau Technegol* ar wefan Cadw, sy'n egluro pryd y dylech ymgynghori ag arbenigwr cadwraeth. Os oes gennych unrhyw amheuaeth am y camau priodol i'w cymryd, gallwch gysylltu â'r Ymddiriedolaeth Cofebion Rhyfel i gael arweiniad neu geisio help contractwr cadwraeth.

Symud cofebion

Yn aml, câi cofebion rhyfel eu lleoli'n ofalus mewn lleoliadau a ddewiswyd gan y gymuned leol, efallai am resymau symbolaidd neu oherwydd cysylltiadau hanesyddol. Felly, fel arfer, ni ddylech eu symud na'u hadleoli oni fydd rheswm da iawn dros wneud hynny. Gellir achosi difrod wrth dymchwel cofebion, neu os cânt eu symud i

leoliad amhriodol, er enghraifft, o'r tu mewn i adeilad i'r tu allan. Mae'r Ymddiriedolaeth Cofebion Rhyfel yn argymhell mai dim ond os bydd yn wynebu risg neu os bydd yn anhygyrch y dylid symud cofeb — er enghraifft pan fydd adeilad yn segur ac na fydd unrhyw gynlluniau i'w ailddedfyddio. Yn y rhan fwyaf o achosion, ceir

opsiynau eraill fel gwella mynediad at y gofeb gyda gwaith tirlunio priodol neu drefniadau ymweld. Os yw'r gofeb wedi'i rhestru neu'n sownd wrth adeilad rhestredig, yna bydd angen caniatâd adeilad rhestredig i'w symud. Ceir rhagor o arweiniad ar daflen gymorth yr Ymddiriedolaeth Cofebion Rhyfel ar *adleoli cofebion rhyfel*.

Carreg

- Golchwch y gofeb â dŵr gan ddefnyddio brwshis â blew meddal, ond ddim mwy nag unwaith y flwyddyn.
- Peidiwch â defnyddio brwshis copr, pres, efydd na fferrus (haeam neu ddur).
- Peidiwch â defnyddio cemegion, cannydd na glanedyddion.
- Peidiwch â defnyddio dulliau sgraffiniol (mae hyn yn cynnwys defnyddio ffrwd dywod neu ailwynebu gwaith maen).
- Peidiwch â defnyddio ffrydiau dŵr pwysedd uchel.
- Peidiwch â defnyddio paentiau adeiladwaith.

Efydd

- Defnyddiwch ysgrafellod pren i gael gwared ar faw adar, ond cofiwch wlychu'r baw yn gyntaf i sicrhau na fyddwch yn anadlu unrhyw ronynnau.
- Golchwch y gofeb â dŵr pibell gyda phwysedd isel a glanedydd nad yw'n ïonig gan ddefnyddio cadach di-wlân neu frwsh â blew naturiol, ond ddim mwy nag unwaith y flwyddyn. Trefnwch orchudd o gwyr newydd ar ôl glanhau os bydd angen.
- Trefnwch fod arbenigwr/gwarchodwr efydd yn archwilio'r efydd a rhoi cwyr microgrisialog ar bob dwy i dair blynedd.
- Peidiwch â defnyddio cynhyrchion cemegol (yn enwedig cynhyrchion asid ac alcali a thoddynion amonia) neu gynhyrchion glanhau'r cartref.
- Peidiwch â defnyddio brwshis metel.

- Peidiwch â defnyddio paent.
- Peidiwch â defnyddio dulliau ysgraffiniol.

Haeam

- Archwiliwch uniadau ac ardaloedd lle mae paent yn fflawio. Dylid cynnal a chadw'r gorchudd o baent gwarchodol ar yr haeam oherwydd gall dŵr sy'n cronni gael effaith andwyol gan ei fod yn arwain at grydiad.
- Peidiwch â defnyddio paent i geisio cyd-fynd â'r lliw gwreiddiol. Dim ond gweithiwr proffesiynol cymwys ddylai wneud y gwaith ail-baentio.

Uniadau gwaith maen

- Archwiliwch i weld a yw'r uniadau'n agored a threfnwch i weithiwr proffesiynol â phrofiad addas wneud y gwaith ail-bwyntio gan ddefnyddio mortar calch. Gall uniad sydd wedi'i orchuddio gan fwsogl awgrymu bod yr uniad ar agor, sydd wedi caniatáu i lystyfiant dyfu.
- Peidiwch ag ail-bwyntio heb help proffesiynol. Gall y dewis anghywir o forter arwain at ddfrod.

Tyfiannau organig

- Dylech fonitro graddau twf organig. Os bydd llaid algaid yn gorchuddio arysgrifau, cysylltwch â gweithiwr proffesiynol cymwys i lanhau'r wyneb.
- Dylech reoli/cael gwared ar lystyfiant gommodol. Fodd bynnag, gellir gadael y rhan fwyaf o gen y cerrig neu fwsogl ar gofebion ar yr amod nad ydynt yn cuddio arysgrifau a manylion cerfiedig.
- Peidiwch â rhoi cynhyrchion cemegol/bywleiddiad ar yr wyneb.
- Peidiwch â phlannu coed yn rhy agos at y gofeb.
- Peidiwch â gosod potiau blodau yn uniongyrchol ar fôn y gofeb.



Chwith: Dylech fonitro tyfiannau organig ar eich cofeb rhyfel ond cofiwch ddefnyddio contractiwr arbenigol os byddwch am lanhau'r wyneb.

Dde: Gellir glanhau cerfluniau efydd — fel yr un yn Llandaf — yn ofalus gyda dŵr a glanedydd nad yw'n ïonig ond dylai gwarchodwr arbenigol archwilio'r efydd bob dwy i dair blynedd a rhoi cwyr microgrisialog arno.

Atgyweirio

Dylai cynllun chynnal a chadw cadwraeth eich helpu i nodi problemau allweddol. Fodd bynnag, dylech geisio cyngor arbenigwr proffesiynol cyn bwrw ymlaen â'r gwaith atgyweirio. Dylid defnyddio arbenigedd perthnasol i asesu cyflwr y gofeb yn gywir a phennu atebion cadwraeth priodol. Rhaid teilwra gwaith adnewyddu i bob cofeb rhyfel, oherwydd, yn ogystal â bod yn aneffeithiol, gall triniaethau amhriodol hefyd achosi difrod na ellir ei ddadwneud. Dylech gadw cofnod llawn o'r holl waith atgyweirio fel rhan o'ch cynllun cynnal a chadw cadwraeth.

Mae cyngor manylach ar gael ar wefan Cadw yn *Gofalu am Gofebion Rhyfel yng Nghymru — Canllawiau Technegol* a gall Swyddog Cadwraeth eich awdurdod cynllunio lleol roi cyngor i chi ar waith cadwraeth (yn y rhan fwyaf o achosion, eich awdurdod cynllunio lleol fydd eich awdurdod lleol). Gall yr Ymddiriedolaeth Cofebion Rhyfel awgrymu ffynonellau i'ch helpu i ganfod gwarchodwr neu gontractwr arbenigol addas i wneud gwaith atgyweirio, neu gallwch gysylltu â'r sefydliadau cadwraeth a restrir ar t. 30.

Dylech sicrhau bod gwaith cynnal a chadw yn cael ei wneud gan bobl wedi'u hyfforddi'n briodol a gaiff eu goruchwyllo. Efallai y bydd angen i chi gael nifer o gontractwyr arbenigol i ofalu am ddeunyddiau gwahanol. Er enghraifft, gwnaed y gofeb rhyfel yn Rhuthun o goncrid yn bennaf, ond mae hefyd yn cynnwys rheiliau haearn, wal derfyn o dywodfaen a thabledi gwenithfaen, y mae angen dulliau cynnal a chadw gwahanol ar gyfer pob un ohonynt.



Gwarchod rhag dwyn metelau

Gall lladron dargedu elfennau metel cofebion rhyfel — yn arbennig plwm, copr ac efydd. Gallwch warchod rhag dwyn metelau mewn nifer o ffyrdd, yn cynnwys gosodiadau ffisegol neu larymau rhwystr. Mae nodau fforensig yn cael eu rhoi fwyfwy ar elfennau metel cofebion rhyfel er mwyn ceisio rhwystro lladron. Mae'r gwaith hwn fwyaf effeithiol pan gaiff ei ddefnyddio gyda mesurau diogelwch eraill a phan gaiff ei ddefnydd ei nodi'n glir gydag arwyddion rhybudd, a ddylai fod ar y gofeb ei hun. Dylid gosod arwyddion

yn ofalus er mwyn osgoi ymyrraeth ac annibendod a allai amharu ar olwg y gofeb.

Mae gan yr Ymddiriedolaeth Cofebion Rhyfel ragor o ganllawiau ar hyn, yn cynnwys prosiect In Memoriam 2014 sy'n cynnig SmartWater am ddim i geidwaid cofebion rhyfel er mwyn helpu i atal lladrad (ceir rhagor o fanylion ar t. 30).

Lle ceir achosion o ddwyn, yn ddefnyddol dylech osod eitem newydd unfath yn lle eitem a gafodd ei dwyn

a rhoi mesurau gwrth-ladrad ar waith, fel gosodiadau ychwanegol. Mewn enghreifftiau lle ceir achosion mynych o ddwyn, gall fod yn briodol gosod deunydd amgen yn lle deunydd a gafodd eu dwyn, cyhyd â'u bod yn cyd-fynd yn esthetiaid â'r gofeb wreiddiol. Fel arfer, nid ystyrir bod atgynrychiadau synthetic fel placiau resin yn ddewis addas ar gofebion hanesyddol. Am ragor o wybodaeth, mae Cadw yn cefnogi cyhoeddiad English Heritage *Theft of Metal from Church Buildings*.

Caniatadau Statudol

Yr unig ddeddfwriaeth sy'n benodol i gofebion rhyfel yw Deddf Cofebion Rhyfel (Pwerau Awdurdodau Lleol) 1923 a diwygiadau dilynol. Mae hyn yn galluogi awdurdodau lleol i ddefnyddio arian i gynnal, atgyweirio a gwarchod cofebion rhyfel, yn cynnwys ychwanegu a chywiro arysgrifau; fodd bynnag, nid yw'n rhoi unrhyw rwymedigaeth ar yr awdurdod lleol i wneud hynny.

Mae rhai cofebion rhyfel yn adeiladau rhestredig ac mae rhai yn henebion cofrestredig. Mewn achosion o'r fath, bydd angen i chi gael caniatâd i wneud gwaith addasu, rhywfaint o waith atgyweirio, glanhau neu adfer manylion pensaernïol neu i ychwanegu mesurau diogelwch sefydlog fel teledu cylch cyfyng neu oleuo. Byddai'n ddoeth i chi siarad â Swyddog Cadwraeth eich awdurdod cynllunio lleol ar gam cynnar er mwyn trafod p'un a fydd angen caniatadau statudol ac i ddod i gytundeb cyffredinol ynghylch beth fyddai fwyaf addas.

Caniatâd adeilad rhestredig

Os ydych yn bwriadu newid nodweddion cofeb rhyfel restredig, rhaid i chi gael caniatâd adeilad rhestredig. Mae hyn yn berthnasol waeth beth yw'r categori rhestru (gradd I, gradd II* neu radd II). Mae'n cynnwys pob gwaith atgyweirio a chadwraeth a fydd yn effeithio'n sylweddol ar nodweddion y gofeb, a all gynnwys glanhau cerrig a gosod rhai newydd.

Os yw'r gofeb wedi'i rhestru, dylech bob amser holi eich awdurdod cynllunio lleol p'un a oes angen caniatâd adeilad rhestredig cyn gwneud unrhyw waith. Gallwch gael gwybod a yw cofeb wedi'i rhestru drwy gysylltu â'r awdurdod cynllunio lleol neu Cadw. Os nad yw cofeb wedi'i rhestru yn ei rhinwedd ei hun ond ei bod yn sownd wrth adeilad rhestredig neu o fewn ei ffin, gellir ystyried ei bod yn rhan o'r adeilad rhestredig a bydd angen caniatâd adeilad rhestredig. Bydd yr

Efallai y bydd angen i chi gael caniatâd adeilad rhestredig ar gyfer glanhau ac atgyweirio eich cofeb os yw wedi'i rhestru neu os yw'n rhan o adeilad rhestredig. Er enghraifft, mae neuadd goffa Cricieth wedi'i rhestru ac mae'n cynnwys neuadd atgofion sy'n coffáu'r rhai a fu farw yn y ddau ryfel byd.



Weithiau, bydd cofeb rhyfel wedi'i chofrestru neu wedi'i lleoli o fewn ffiniau heneb gofrestredig — fel y gofeb yng Nghaerllion, sydd o fewn ardal gofrestredig y gaer Rufeinig. Os felly, bydd angen i chi gael caniatâd ysgrifenedig gan Cadw i wneud rhai mathau o waith glanhau ac atgyweirio cyn i chi ddechrau ar y gwaith.



awdurdod cynllunio yn dweud wrthy ch p'un a oes angen caniatâd ar gyfer gwaith.

Dylid gwneud pob cais am ganiatâd adeilad rhestredig i'r awdurdod cynllunio lleol a fydd yn penderfynu amynt. Pan fo awdurdod lleol yn gwneud cais, Llywodraeth Cymru fydd yn penderfynu ar y caniatâd fel arfer.

Caniatâd heneb gofrestredig

Os bydd cofeb wedi'i chofrestru naill ai yn ei rhinwedd ei hun neu am ei bod o fewn ardal o dir cofrestredig, bydd angen i chi gael caniatâd ysgrifenedig gan Cadw i wneud y rhan fwyaf o waith — yn cynnwys gwaith atgyweirio ac addasu — cyn i chi ddechrau ar y gwaith. Gelwir hyn yn ganiatâd heneb gofrestredig. Mae Cadw yn cynghori y dylid gwneud cyn lleied o waith â phosib i ddiogelu'r gofeb. Os yw eich cofeb rhyfel wedi'i chofrestru, yna dylech siarad â Cadw ar gam cynnar i drafod cynigion ar gyfer glanhau, atgyweirio neu addasu.

Caniatâd cynllunio

Efallai y bydd angen i chi gael caniatâd cynllunio i wneud gwaith addasu i gofeb rhyfel neu i ychwanegu ati, er enghraifft, gosod rheiliau terfyn newydd. Gall fod cyfyngiadau ychwanegol yn bodoli mewn ardaloedd cadwraeth ar gyfer rhywfaint o waith, fel dymchwel cofeb. Bydd yr awdurdod cynllunio yn rhoi gwybod i chi a oes angen caniatâd i wneud gwaith a beth sy'n debygol o gael caniatâd.

Cofebion rhyfel newydd

Os ydych yn ystyried codi cofeb rhyfel newydd, dylech fod yn glir ynghylch pam rydych yn ei chomisiynu a beth neu pwy y mae angen ei goffâu. Bydd angen i chi hefyd ystyried dyluniad y gofeb a sut yr ariennir y gofeb a'r gwaith o'i chynnal a chadw yn y dyfodol. Mae gan yr Ymddiriedolaeth Cofebion Rhyfel daflen gymorth ar *gofebion rhyfel newydd* ar ei gwefan, ond fel elusen cadwraeth, ni all ariannu cofebion newydd.

Eithriad eglwysig

Efallai na fydd llawer o gofebion rhyfel wedi'u rhestru yn eu rhinwedd eu hunain ond eu bod wedi'u lleoli o fewn adeilad eglwys neu gapel rhestredig, yn sownd wrth yr adeilad neu'n sefyll ar ei phen ei hun o fewn ei dir. Os bydd cofeb rhyfel o'r fath yn sownd wrth adeilad eglwys neu gapel rhestredig, neu wedi'i lleoli o fewn ei ffiniau, yna mae'n debyg y bydd y rhestriad yn cwmpasu'r gofeb rhyfel. Fodd bynnag, nid oes angen i adeiladau a ddefnyddir yn bennaf fel addoldai ar gyfer enwadau penodol, gael caniatâd adeilad rhestredig yn ôl y gyfraith. Mae hyn oherwydd bod ganddynt weithdrefnau mewnlol cyfatebol i bennu addasrwydd addasiadau arfaethedig. Gelwir hyn yn eithriad eglwysig ac mae'n eithrio'r enwad rhag gorfod cael caniatâd adeilad rhestredig ar gyfer ei waith ei hun. Fodd bynnag, ar gyfer cynigion gan unrhyw un arall, heblaw'r enwad, efallai y bydd angen cael caniatâd adeilad rhestredig gan yr awdurdod cynllunio lleol.

Mae'n debyg y bydd angen i unrhyw waith addasu arfaethedig i gofeb sy'n sefyll ar ei phen ei hun sydd wedi'i rhestru ar wahân i adeilad yr eglwys neu'r capel gael caniatâd adeilad rhestredig gan yr awdurdod cynllunio lleol. Os nad ydych yn siŵr, dylech holi'r ddau awdurdod.



Dylech edrych yn ofalus i weld a oes eithriad eglwysig yn berthnasol i gofeb sy'n gysylltiedig ag eglwys neu gapel. Mae rhai cofebion rhyfel sy'n sefyll ar eu pen eu hunain, fel y groes hon mewn mynwent yn Noc Penfro, wedi'u rhestru yn eu rhinwedd eu hunain, felly byddai angen i chi wneud cais i'ch awdurdod cynllunio lleol i gael caniatâd adeilad rhestredig. Os nad ydych yn siŵr, holwch Swyddog Cadwraeth eich awdurdod cynllunio lleol.

Graffiti a fandaliaeth

Yn anffodus, nid yw cofebion rhyfel hyd yn oed yn ddiogel rhag graffiti a ffurfiau eraill o fandaliaeth. Fel arfer, mae graffiti'n ymddangos ar ffurf paent wedi'i chwistrellu (aerosols), pennau marcio, cerfiadau neu grafiadau. Fel arfer, rhoddir blaenoriaeth i ddileu graffiti cyn gynted â phosibl gan ei fod yn effeithio'n andwyol ar olwg cofebion rhyfel. Bydd dileu'r graffiti ar unwaith yn helpu i atal ymosodiadau tebyg ac mae hefyd yn synhwyrol o safbwynt technegol gan fod paent, glud ac inc yn mynd yn anoddach i'w dileu wrth iddynt sychu.

Er bod angen ymateb yn gyflym, mae angen i chi ystyried y dull dileu yn ofalus er mwyn sicrhau na fyddwch yn gwneud y difrod yn waeth. Mae'n syniad da cael manylion arbenigwyr cadwraeth wrth law sy'n gwybod sut i drin y deunyddiau y gwnaed eich cofeb rhyfel ohonynt fel y gallwch gael cyngor a sicrhau bod gwaith adfer yn cychwyn cyn gynted â phosibl. Fel arfer, dylid trefnu bod pob gwaith i adfer difrod a wneir gan graffiti yn cael ei wneud gan arbenigwr.

Os bydd cofeb rhyfel wedi'i fandaleiddio, mae'n bwysig cofnodi'r digwyddiad gyda ffotograffau a

disgrifiad ysgrifenedig. Rhowch wybod i'r heddlu a chael rhif cyfeirnod trosedd, a fydd yn angenrheidiol ar gyfer unrhyw gais am yswiriant. Bydd angen i chi gael cyngor proffesiynol er mwyn penderfynu ar y cam gweithredu mwyaf priodol fel glanhau, atgyweirio cerrig ac ati. Holwch yr awdurdod cynllunio lleol i weld a yw'r heneb wedi'i rhestru a gofynnwch am y cyngor a'r caniatadau angenrheidiol ar gyfer gwneud gwaith adfer. Bydd angen contractiwr â'r sgiliau addas ac efallai y bydd angen cynnal profion glanhau cyn gwneud unrhyw waith.



THEY
SHALL RISE
AGAIN
IN GREATER
GLORY

Coffee 1

One way
Unford

Grantiau, Cyngor ac Adnoddau Defnyddiol

Grantiau

Cadw yw gwasanaeth amgylchedd hanesyddol Llywodraeth Cymru ac mae'n gyfrifol am roi cyngor i weinidogion Cymru ar y broses o gofrestru henebion a rhestru adeiladau. Mae Cadw'n rhoi arian i gynorthwyo gyda'r gwaith o warchod ac atgyweirio cofebion rhyfel yng Nghymru. www.cadw.cymru.gov.uk

Elusen yw'r **Ymddiriedolaeth Cofebion Rhyfel** sy'n gweithio i ddiogelu a gwarchod cofebion rhyfel yn y DU. Mae'n rhoi cyngor a gwybodaeth cadwraeth am ddim ar amryw o faterion sy'n ymwneud â chofebion rhyfel yn ogystal â gweinyddu cynlluniau grant, a all gefnogi'r gwaith o atgyweirio a gwarchod cofebion rhyfel. Gall unrhyw un wneud cais i'r Cynllun Grantiau Bach, ond dylech nodi na all yr Ymddiriedolaeth Cofebion Rhyfel ariannu gwaith ar ôl iddo ddechrau neu gael ei gwblhau. Ewch i adran grantiau gwefan yr Ymddiriedolaeth Cofebion Rhyfel i gael rhagor o wybodaeth am y cynlluniau hyn, sut i wneud cais, ffynonellau ariannu eraill a chyngor i ymgeiswyr www.warmemorials.org/grants

Caiff y **Cynllun Grantiau Cofebion** ei redeg gan yr Adran Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon a gall ad-dalu'r TAW a delir mewn prosiectau cofebion, yn cynnwys adeiladu cofebion newydd, ar ffurf grant. Gweler y wefan am fanylion cymhwyster a sut i wneud cais. Ar hyn o bryd, cafwyd cadarnhad y bydd y cynllun yn rhedeg hyd at 2015 felly dylech sicrhau bod y cynllun yn dal yn weithredol cyn gwneud cais www.memorialgrant.org.uk

Gall **Cronfa Dreftadaeth y Loteri** roi arian er mwyn helpu grwpiau,

cymunedau a sefydliadau i nodi canmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf, yn cynnwys cofebion, adeiladau a safleoedd. <http://welsh.hlf.org.uk> a Deall y Rhyfel Byd Cyntaf — Cronfa Dreftadaeth y Loteri <http://welsh.hlf.org.uk/HowToApply/WhatWeFund/FirstWorldWar/Pages/FirstWorldWar.aspx>

Cyngor

Mae **Swyddogion Cadwraeth** mewn awdurdodau cynllunio lleol yn cynnig cyngor sy'n ymwneud ag adeiladau rhestredig a materion cadwraeth ehangach, yn cynnwys cofebion rhyfel. Dylech gysylltu â **Swyddogion Cofebion Rhyfel** awdurdodau lleol i ddechrau os hoffech gael gwybod mwy am ofalu am eich cofeb rhyfel ac efallai y gallant helpu drwy roi cyngor ar gadwraeth. Dylech gofnodi eich cofeb rhyfel gyda'ch Swyddog Cofebion Rhyfel. Ceir manylion Swyddogion Cofebion Rhyfel ar wefan yr Ymddiriedolaeth Cofebion Rhyfel. www.warmemorials.org/wmo-wales

Mae **Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru** yn cynnal **Cofnod Henebion Cenedlaethol Cymru** — y casgliad cenedlaethol o wybodaeth am amgylchedd hanesyddol Cymru, sy'n cynnwys cofnodion o gofebion rhyfel. Gallwch chwilio am gofnodion ar eu cronfa ddata ar-lein **Coflein** www.coflein.gov.uk. Dylech gofnodi eich cofeb gyda Chofnod Henebion Cenedlaethol Cymru.

Pedair **ymddiriedolaeth archeolegol Cymru** sy'n cynnal y Cofnodion Amgylchedd Hanesyddol, a'r nod yw cofnodi'r holl nodweddion hanesyddol ac archeolegol hysbys yng Nghymru. Dylech gofnodi eich cofeb rhyfel gyda'r

ymddiriedolaeth briodol (ceir manylion cyswllt ar t. 30). Mae'r cofnodion ar gael ar-lein yn www.archwilio.org.uk a thrwy'r ap Android Archwilio, y gellir ei lawrlwytho o Google Play.

Mae'r **Ymddiriedolaeth Cofebion Rhyfel** yn cynnig cyngor ac arweiniad ymarferol ar sut i warchod a chynnal a chadw eich cofeb rhyfel ac mae'n rhoi amrywiaeth o daflenni cymorth a chwestiynau cyffredin ar-lein. www.warmemorials.org

Mae'r **Amgueddfeydd Rhyfel Ymerodrol** hefyd yn creu cofnod cynhwysfawr o'r holl gofebion rhyfel yn y DU. Arferai'r **Archif Cofebion Rhyfel** gael ei alw'n Rhestr Genedlaethol y DU o Gofebion Rhyfel. www.iwm.org.uk/warmemorials

I gael rhagor o gyngor ac i ddod o hyd i gontractwr addas, gallwch gysylltu â'r Gofrestr Cadwraeth, y Gofrestr o Beirianwyr Cadwraeth Achrededig, y Gofrestr o Benseiri a Achredwyd mewn Cadwraeth Adeiladau a Sefydliad Brenhinol y Syrffwyr Siartredig. Am fanylion cyswllt, gweler y cyfeiriadau gwe isod.

Adnoddau defnyddiol

Cyhoeddiadau

G. Archer, *The Glorious Dead* (Kirstead 2009).

J. Corke, *War Memorials in Britain* (Rhydychen 2005).

English Heritage a'r Ymddiriedolaeth Cofebion Rhyfel, *Advice on Maintenance of War Memorials* (Llundain 2006).

English Heritage a'r Ymddiriedolaeth Cofebion Rhyfel, *War Memorial Theft: Prevention and Solutions* (Llundain 2009).

English Heritage, *Theft of Metal from Church Buildings* (Llundain 2011); ar gael ar-lein yn: <<http://www.english-heritage.org.uk/professional/advice/advice-by-topic/places-of-worship/theft-protection/>>.

English Heritage, *Conservation, Repair and Management of War Memorials* (Llundain 2014).

A. Gaffney, *Aftermath: Remembering the Great War in Wales* (Caerdydd 1998).

Historic Scotland a'r Ymddiriedolaeth Cofebion Rhyfel, *Short Guide 3: The Repair and Maintenance of War Memorials*, (Caeredin 2013) ar gael ar-lein yn <<http://conservation.historic-scotland.gov.uk/publication-detail?pubid=9912>>.

J. Summers, *British and Commonwealth War Cemeteries* (Rhydychen 2010).

J. Winter, *Sites of Memory, Sites of Mourning: The Great War in European Cultural History* (Caergrawnt 1995).

Mae'r holl daflenni cymorth gan yr Ymddiriedolaeth Cofebion Rhyfel ar gael ar-lein yn www.warmemorials.org/a-z

Gwefannau

Menter gan yr Ymddiriedolaeth Cofebion Rhyfel a Sefydliad SmartWater yw In Memoriam 2014 sy'n rhoi nodau ffrensig SmartWater am ddim i geidwaid cofebion rhyfel er mwyn diogelu elfennau metel. www.inmemoriam2014.org

Prosiect yw Cofebion Rhyfel Ar-lein sydd â'r nod o greu gwell dealltwriaeth o gyflwr cofebion rhyfel drwy geisio help y cyhoedd i uwchlwytho gwybodaeth, ffotograffau ac adroddiadau cyflwr. www.warmemorials.org.uk

Archif Cofebion Rhyfel yr Amgueddfeydd Rhyfel Ymerodrol www.iwm.org.uk/warmemorials

Cymru'n Cofio — Wales Remembers 1914–1918 <http://www.cymruncofio.org/>

Y Rhyfel Byd Cyntaf a'r Profiad Cymreig <http://cymruww1.llgc.org.uk/cyl>

Comisiwn Beddau Rhyfel y Gymanwlad www.cwgc.org

Gall y Gymdeithas Diogelu Adeiladau Hynafol (SPAB) roi cyngor ac arweiniad ar sut i ofalu am adeiladau hanesyddol, yn cynnwys cofebion rhyfel. www.spab.org.uk

Y Sefydliad Cadwraeth Adeiladau Hanesyddol yw'r prif gorff proffesiynol ar gyfer ymarferwyr cadwraeth adeiladau ac arbenigwyr amgylchedd hanesyddol. www.ihbc.org.uk

Mae'r Cyfeirlyfr Cadwraeth Adeiladau yn adnodd defnyddiol ar gyfer canfod cynhyrchion a gwasanaethau cadwraeth. www.buildingconservation.com

Gall y Gofrestr Cadwraeth eich helpu i ganfod contractwyr cadwraeth. www.conservationregister.com

Mae'r Sefydliad Cadwraeth (ICON) yn adnodd da ar gyfer rhoi cyngor ar gadwraeth ac mae'n rheoli'r Gofrestr Cadwraeth. www.icon.org.uk

CARE (Cofrestr Peirianwyr Cadwraeth Achrededig) www.careregister.org.uk

AABC (Cofrestr Penseiri Achrededig ym maes Cadwraeth Adeiladau) www.aabc-register.co.uk

RICS (Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig) Dewch o hyd i Syrfewr www.ricsfirms.com

The Twentieth Century Society www.c20society.org.uk

Cyfeiriadau

Cadw, Llywodraeth Cymru
Tîm Polisi a Gwarchod
Plas Carew
Uned 5/7 Cefn Coed
Parc Nantgarw
Caerdydd
CF15 7QQ
01443 336059
cadw@wales.gsi.gov.uk
www.cadw.cymru.gov.uk

War Memorials Trust and War Memorials Online
2nd Floor
42a Buckingham Palace Road
Llundain
SW1W 0RE
Cyngor/grantiau cadwraeth:
020 7233 7356 / 0300 123 0764

conservation@warmemorials.org
www.warmemorials.org
info@warmemorials.org
www.warmemorials.org.uk

War Memorials Archive
Imperial War Museums
Lambeth Road
Llundain
SE1 6HZ
020 7207 9863/9851
memorials@iwm.org.uk
www.iwm.org.uk/warmemorials

Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru
Plas Crug
Aberystwyth
SY23 1NJ
01970 621200
nmr.wales@rcahmw.gov.uk
www.rcahmw.gov.uk

Ymddiriedolaeth Archaeolegol
Clwyd-Powys
41 Stryd Lydan
Y Trallwng
SY21 7RR
01938 553670
trust@cpat.org.uk
www.cpat.org.uk

Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed
Neuadd y Sir
8 Stryd Caerfyrddin
Llandeilo
SA19 6AF
01558 823121/131
info@dyfedarchaeology.org.uk
www.dyfedarchaeology.org.uk

Ymddiriedolaeth Archeolegol
Morgannwg-Gwent
Tŷ Heathfield
Heathfield
Abertawe
SA1 6EL
01792 655208
enquiries@ggat.org.uk
www.ggat.org.uk

Ymddiriedolaeth Archaeolegol
Gwynedd
Craig Beuno
Ffordd y Garth
Bangor
LL57 2RT
01248 352535
gat@heneb.co.uk
www.heneb.co.uk